Rheolau ac Amodau Cyffredinol

1. Cwmpas

Cynhelir pob cystadleuaeth yn yr Eisteddfod yn unol â'r Rheolau ac Amodau Cyffredinol hyn, yr Amodau Arbennig a geir ar gychwyn pob adran yn y *Rhestr Testunau* ac unrhyw amod a nodir mewn perthynas â chystadleuaeth unigol ('y Rheolau ac Amodau').

2. Dehongliad

(i) Yng nghyd-destun y Rheolau ac Amodau, nodir isod ystyr y geiriau canlynol:
- **Eisteddfod:** Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- **Cyngor:** Cyngor yr Eisteddfod
- **Llys:** Llys yr Eisteddfod
- **Pwyllgor Gwaith:** y Pwyllgor Gwaith lleol
- **Swyddogion:** swyddogion penodol a benodir gan y Prif Weithredwr
- **Yr Ŵyl:** yr Eisteddfod y cynhelir y gystadleuaeth ynddi

(ii) Os bydd unrhyw wahaniaeth mewn ystyr rhwng y geiriad Cymraeg a'r geiriad Saesneg yn y Rheolau ac Amodau, y geiriad Cymraeg a gyfrifir yn eiriad swyddogol.

3. Recordiadau, Ffilmio a Darlledu

Rhybudd i berfformwyr ac i'r rhai sy'n cyfrannu at weithgareddau'r Eisteddfod:

Y mae Llys yr Eisteddfod yn cadw'n eiddo'i hun yn unig yr hawl:

(i) i wneud recordiadau o holl weithgareddau'r Eisteddfod neu unrhyw ran ohonynt, gan gynnwys gweithgareddau'r Orsedd ('y Gweithgareddau') ac unrhyw ddetholiad o unrhyw eitem lenyddol, gerddorol neu ddramatig a gyflwynir ('y Detholion');

(ii) i wneud ffilmiau sinematograffig neu fath arall o'r Gweithgareddau a/neu'r Detholion;

(iii) i ddarlledu'r Gweithgareddau a/neu'r Detholion, trwy gyfrwng radio sain, teledu, y rhyngrwyd, neu unrhyw gyfrwng arall boed yn hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir yn y dyfodol;

(iv) i ddosbarthu ac i ymelwa ar y cyfryw recordiadau, ffilmiau a/neu ddarllediadau o'r Gweithgareddau a/neu'r Detholion mewn unrhyw fodd ac mewn neu drwy unrhyw gyfrwng sy'n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir yn y dyfodol yn unol â'i ddisgresiwn llwyr ei hun o dro i dro;

(v) i olygu yn unol â'i ddisgresiwn llwyr ei hun y recordiadau, darllediadau a/neu ffilmiau a wneir yn unol â pharagraffau (i) i (iv) uchod; ac

(vi) i awdurdodi eraill yn unol â'i ddisgresiwn llwyr ei hun o dro i dro i recordio, ffilmio, darlledu, dosbarthu, olygu a/neu ymelwa fel y nodir ym mharagraffau (i) i (v) uchod ar y Gweithgareddau a/neu'r Detholion.

I'r perwyl hynny mae cystadleuwyr yn ildio unrhyw hawliau moesol sydd ganddynt o dan Bennod IV Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 ac o dan unrhyw ddeddfau eraill sydd mewn grym yn y presennol neu yn y dyfodol yn unrhyw le yn y byd ac yn rhoi i'r Eisteddfod unrhyw ganiatâd angenrheidiol i ddefnyddio'u cyfraniadau at weithgareddau'r Eisteddfod.

4. Hawlfraint Cyfansoddiadau

(i) Bydd yr awdur yn cadw yn eiddo iddo/iddi ei hun berchnogaeth yr hawlfraint ym mhob cyfansoddiad, ac unrhyw freindal perthnasol.

(ii) Yn unol â'r amod yn y ffurflen gais a arwyddir gan bob awdur, fodd bynnag, bydd awdur y gwaith, yn gyfnewid am y gwasanaeth y bydd yr Eisteddfod yn ei roi drwy ei feirniadu, yn rhoi'r hawliau canlynol i'r Eisteddfod heb i'r Eisteddfod dalu unrhyw freindal neu daliad arall:

(a) i gyhoeddi unrhyw gyfansoddiad am y tro cyntaf yn ystod wythnos yr Ŵyl neu o fewn tri mis i ddiwrnod olaf yr Ŵyl heb ymgynghori â'r awdur.;

(b) i ganiatáu i'r Eisteddfod ddefnyddio'r gwaith buddugol yn y dyfodol at ddibenion yr Eisteddfod, er enghraifft fel darnau prawf neu er mwyn hyrwyddo'r Eisteddfod, heb ymgynghori â'r awdur.

(iii) Ymhellach bydd yn rhaid i awdur unrhyw waith a gyhoeddir gan yr Eisteddfod gydnabod cysylltiad y gwaith â'r Eisteddfod bob tro y'i defnyddir ganddo/ganddi fel perchennog yr hawlfraint ynddo.

(iv) Bydd y beirniaid, ar ffurflen a roddir iddynt wrth, neu wedi iddynt dderbyn eu swydd, yn trosglwyddo i'r Llys yr hawlfraint ar eu beirniadaethau.

(v) Bydd yr awdur yn rhoi'r hawl i Brif Weithredwr a/neu Drefnydd yr Eisteddfod agor yr amlen dan sêl os yw beirniad/beirniaid y gystadleuaeth neu olygydd cyfrol y *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* yn argymell cyhoeddi'r gwaith.

(vi) O dan amgylchiadau arbennig, caniateir agor yr amlen dan sêl ar ôl cyfnod o hanner can mlynedd wedi'r Eisteddfod mewn ymgynghoriad â'r Llyfrgell Genedlaethol.

5. Cwyno a Gwrthwynebu

Ni ellir gwrthwynebu neu gwyno'n erbyn unrhyw ddyfarniad yn gyhoeddus yn yr Ŵyl, ond gellir cyflwyno cwyn ysgrifenedig i'r Trefnydd o fewn awr i'r dyfarniad terfynol mewn cystadleuaeth llwyfan neu mewn achos rhagbrawf, o fewn hanner awr i gyhoeddi dyfarniad y rhagbrawf, gydag enw a chyfeiriad y sawl sy'n cwyno. Bydd y wobr yn cael ei hatal tan y bydd y mater wedi'i setlo.

6. Pwyllgor Apêl

(i) Bydd y Pwyllgor Apêl yn dyfarnu mewn unrhyw ddadl neu wahaniaeth barn ar unrhyw fater yn codi o'r Rheolau ac Amodau neu mewn unrhyw fater ynglŷn ag unrhyw gystadleuaeth.

(ii) Sail unrhyw apêl yw cyhuddiad bod amod cystadleuaeth unigol, amod gyffredinol, neu amod arbennig wedi'i thorri. Ni ellir apelio ar sail chwaeth neu ddehongliad beirniaid. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apêl yn derfynol.

(iii) Bydd y Pwyllgor Apêl yn cynnwys tri o swyddogion y Llys a thri o swyddogion y Pwyllgor Gwaith, ynghyd â chadeirydd neu is-gadeirydd y Cyngor yn gadeirydd ar y pwyllgor. Bydd tri aelod yn ffurfio cworwm.

7. Cyfyngiadau Beirniadu a Chystadlu

(i) Ni chaniateir i aelod neu gyn-aelod o'r Pwyllgor Gwaith nac o unrhyw un o'r is-bwyllgorau feirniadu yn yr Ŵyl.

(ii) Ni chaiff beirniaid ar gystadlaethau llwyfan gystadlu ar unrhyw gystadleuaeth llwyfan arall ac eithrio y caniateir iddynt fod yn aelodau o gôr neu barti mewn adran nad ydynt yn beirniadu ynddi. Caniateir iddynt hefyd gystadlu mewn cystadlaethau cyfansoddi ym mhob adran. Gall beirniad cystadlaethau cyfansoddi gystadlu ym mhob cystadleuaeth gyfansoddi a llwyfan ac eithrio y gystadleuaeth(au) cyfansoddi y maent yn eu beirniadu.

(iii) Ni chaiff beirniad yn yr Ŵyl weithredu fel cynhyrchydd, arweinydd, hyfforddwr na blaenwr.

(iv) Ni chaniateir i gyfeilyddion swyddogol yr Ŵyl gystadlu yn y cystadlaethau y gwahoddwyd hwy i gyfeilio ynddynt.

(v) Ni chaiff unrhyw un sydd yn ddisgybl preifat i'r beirniad ar ôl 31 Awst y flwyddyn cyn yr Ŵyl, neu'n berthynas iddo/iddi, neu sydd yn ei wasanaeth, gystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth y bo'r beirniad hwnnw'n beirniadu arni.

(vi) Ni all neb gystadlu fwy nag unwaith yn yr un gystadleuaeth llwyfan.

8. Ffurflenni Cystadlu

Rhaid i gystadleuwyr pob adran lenwi'r ffurflenni priodol yn y *Rhestr Testunau* neu ar-lein a'u hanfon gyda'r tâl cywir at y Trefnydd erbyn y dyddiad a nodir arnynt. Ceir ffurflenni ychwanegol o Swyddfa'r Eisteddfod ac ar wefan yr Eisteddfod.

9. Cyflwyno Cyfansoddiadau

(i) Rhaid anfon pob cyfansoddiad, ynghyd â'r tâl cywir, at y Trefnydd erbyn 1 Ebrill cyn yr Ŵyl. Mae rhai cystadlaethau yn eithriad i'r rheol hon, sef:
- Gwobr Goffa Daniel Owen (1 Rhagfyr)
- Y Fedal Ryddiaith (1 Rhagfyr)
- Cystadlaethau Y Lle Celf (1 Mawrth)
- Dysgwr y Flwyddyn (31 Mawrth)

(ii) Rhaid i bob cyfansoddiad nodi rhif a theitl y gystadleuaeth a ffugenw'r cystadleuydd yn unig.

(iii) Rhaid i bob cystadleuydd anfon amlen dan sêl sy'n cynnwys y manylion canlynol y tu mewn:
(a) Rhif a theitl y gystadleuaeth
(b) Ffugenw
(c) Enw llawn
(ch) Rhif ffôn
(d) Cyfeiriad a chyfeiriad ebost y cystadleuydd
(dd) Enw cyhoeddwr (os yn berthnasol)
Ni ddylid cynnwys dim arall yn yr amlen.

(iv) Rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol ar glawr yr amlen:
(a) Rhif a theitl y gystadleuaeth
(b) Ffugenw'r cystadleuydd
Sylwer yn arbennig ar Amodau Arbennig Adran Llenyddiaeth.

(v) Rhaid ysgrifennu pob cyfansoddiad yn eglur ag inc neu ei argraffu ar un ochr i'r papur, ac mae angen cyplysu pob dalen yn ddiogel.

10. Gwaith Gwreiddiol

Rhaid i'r holl gyfansoddiadau a chynhyrchion a anfonir at yr Eisteddfod fod yn waith gwreiddiol a dilys y cystadleuydd (neu gystadleuwyr pan ganiateir cywaith). Ni chaniateir anfon gwaith sydd wedi'i wobrwyo o'r blaen yn yr Eisteddfod Genedlaethol na gwaith sydd wedi'i gyhoeddi yn rhannol nac yn gyfan mewn unrhyw ddull.

11. Iaith

(i) Rhaid i'r cyfansoddiadau a'r cystadlu fod yn Gymraeg ac eithrio lle nodir yn wahanol dan unrhyw gystadleuaeth unigol.

(ii) Rhaid osgoi gor-ddefnydd o'r Saesneg mewn detholiadau a chystadlaethau hunanddewisiad a chyfansoddiadau.

(iii) Ni chaniateir cynnwys unrhyw ddeunydd enllibus nac unrhyw ddefnydd o iaith anweddus a allai beri tramgwydd i eraill mewn unrhyw ddetholiadau neu gystadlaethau hunanddewisiad neu gyflwyniad byrfyfyr.

(iv) Ni dderbynnir gwaith sy'n cynnwys unrhyw ddeunydd neu gyfeiriad enllibus.

12. Hawl i Gystadlu

Mae cystadlaethau'r Eisteddfod yn agored i unrhyw un:
- a anwyd yng Nghymru, neu
- y ganwyd un o'i r/rhieni yng Nghymru, neu

- sy'n siarad neu ysgrifennu Cymraeg, neu
- sydd wedi byw neu weithio yng Nghymru am flwyddyn cyn 31 Awst 2016 ac eithrio yn achos holl ysgoloriaethau'r Eisteddfod a'r adran Celfyddydau Gweledol, mae'n ofynnol bod y cystadleuwyr wedi byw neu weithio yng Nghymru am 3 blynedd cyn 31 Awst 2016.

13. Cyfrifoldeb

Ni fydd yr Eisteddfod na neb o'i swyddogion yn gyfrifol am unrhyw oedi, colled, niwed nac anhwylustod i unrhyw gystadleuydd neu gystadleuwyr, ond cymerir gofal ym mhob modd rhesymol am waith a anfonir i Swyddfa'r Eisteddfod. Ni fydd yr Eisteddfod yn gyfrifol am unrhyw ddifrod neu anffawd i offerynnau.

14. Oedran

(i) Rhaid i'r cystadleuydd fod o fewn cwmpas oedran y gystadleuaeth ar 31 Awst 2016.

(ii) Os bydd dadl am oedran unrhyw gystadleuydd mewn cystadleuaeth gyfyngedig o ran oed, gall y Pwyllgor Apêl fynnu bod cystadleuydd yn dangos tystysgrif geni.

15. Cystadlaethau yn Ystod yr Ŵyl

(i) Cynhelir rhagbrofion pan fo angen a chyhoeddir manylion lle ac amser yn y Rhaglen ac ar wefan yr Eisteddfod.

(ii) Nifer y cystadleuwyr unigol ym mhob prawf terfynol fydd tri oni chaniateir nifer gwahanol gan y Trefnydd.

(iii) Penderfynir ar y drefn i gystadlu ym mhob cystadleuaeth gan y Trefnydd. Rhaid i'r ymgeiswyr gystadlu yn ôl y drefn hon yn y rhagbrawf a'r prawf terfynol.

(iv) Ni chaniateir ymyrryd â'r beirniaid nac â chystadleuwyr eraill ac ni chaiff y cystadleuwyr ddadlau na thrafod y gystadleuaeth gyda'r beirniaid.

(v) Os bydd gan gystadleuydd gŵyn, rhaid dilyn y drefn a osodir yn Rheol 5 a 6.

16. Beirniaid

(i) Mewn ymgynghoriad gyda'r swyddogion, bydd gan y Trefnydd yr hawl i:
   (a) ddewis beirniad yn lle unrhyw un na all weithredu oherwydd salwch neu achos annisgwyl,
   (b) ddewis beirniad ychwanegol os oes angen.

(ii) Darperir canllawiau llawn ar gyfer beirniaid, ac mae'r rhain ar gael o Swyddfa'r Eisteddfod.

17. Beirniadaethau

(i) Oni hysbysir yn wahanol, rhaid i feirniaid cystadlaethau cyfansoddi anfon eu beirniadaethau manwl at y Trefnydd erbyn 15 Mai cyn yr Ŵyl, ynghyd â'r cynhyrchion. Rhaid selio pob amlen sy'n cynnwys beirniadaeth. Dylid anfon y beirniadaethau a'r cyfansoddiadau at y Trefnydd neu'r Swyddog Cystadlaethau. Dylai pob beirniadaeth fod yn y Gymraeg os nad oes caniatâd arbennig wedi'i roi gan y Trefnydd.

(ii) Rhaid i'r beirniaid ym mhob cystadleuaeth arall baratoi beirniadaeth ar waith pob cystadleuydd a'i chyflwyno'n ysgrifenedig i Swyddfa'r Eisteddfod ar y Maes yn union ar ôl y prawf terfynol. Bydd enw a chyfeiriadau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn Adroddiad Gwerthuso'r Eisteddfod ac ar wefan yr Eisteddfod.

(iii) Gwobrwyir enillydd ar sail barn mwyafrif y beirniaid. Bydd gan y Pwyllgor Apêl neu'r Pwyllgor Gwaith yr hawl i benodi canolwr.

(iv) Os nad oes teilyngdod, bydd y beirniaid yn atal y wobr neu ran ohoni.

18. Talu Gwobrau
Telir y gwobrau ariannol yn Swyddfa'r Eisteddfod ymhen awr ar ôl y dyfarniad.

19. Dal Tlysau
Bydd y mwyafrif o'r tlysau, cwpanau a thariannau'n cael eu dal am flwyddyn yn unig, a dylid eu dychwelyd i un o swyddfeydd yr Eisteddfod erbyn 1 Gorffennaf.

20. Dychwelyd Cyfansoddiadau
(i) Rhaid gwneud cais am gael dychwelyd cyfansoddiadau cyn 1 Hydref ar ôl yr Ŵyl, drwy gysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod, gan roi ffugenw, adran a rhif y gystadleuaeth.
(ii) Mae gan yr Eisteddfod yr hawl i sicrhau prawf o berchnogaeth.
(iii) Os na ddaw cais i ddychwelyd cyfansoddiadau erbyn 1 Hydref, anfonir hwy i archif yr Eisteddfod yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

21. Ysgoloriaethau
Ni ellir ennill unrhyw ysgoloriaeth fwy nag unwaith. Mae'r arian a gynigir ym mhob ysgoloriaeth i'w ddefnyddio i hyrwyddo gyrfa'r unigolyn, a disgwylir i enillwyr brofi i'r Eisteddfod bod yr arian yn cael ei wario ar hyn. Dylid cysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod am ragor o wybodaeth.

22. Grantiau Teithio
Gellir gwneud cais am gyfraniad tuag at grantiau teithio mewn rhai achosion. Dylid cysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod am fanylion.

23. Amser Penodol
Ni fydd yr Eisteddfod yn diarddel cystadleuwyr sy'n mynd dros amser mewn cystadlaethau lle nodir amser penodol. Fe'u cosbir drwy dynnu marciau fel a ganlyn:

- hyd at 30 eiliad dim cosb
- 30 eiliad – 1 munud 1 marc
- 1 munud – 2 funud 2 farc
- 2 funud – 3 munud 4 marc
- dros 3 munud 8 marc

24. Polisi Diogelu
Cyhoeddir Polisi Diogelu yr Eisteddfod yn y *Rhestr Testunau* ac ar wefan yr Eisteddfod. Drwy gwblhau a llofnodi'r ffurflen gais, mae rhieni / gwarchodwyr / gofalwyr ac athrawon ymgeiswyr o dan 18 oed (neu oedolion bregus o unrhyw oed) yn cadarnhau eu bod yn rhoi (neu wedi derbyn) y caniatâd angenrheidiol ar gyfer y cystadleuwyr i gymryd rhan yn yr Eisteddfod. Heb ganiatâd, ni all yr Eisteddfod dderbyn ceisiadau i gystadlu.